Llywodraeth EM

MASNACHWYR YN Y DU

# Sut i allforio nwyddau i'r UE drwy leoliadau gyrru-ymlaen-ac-i-ffwrdd (RoRo) ar ôl Brexit

Wedi'i lunio'n ar 31 Ionawr 2020

Heb gynnwys Gogledd Iwerddon

**Gwirio'r newidiadau ar gyfer masnachwyr yn gov.uk/brexit**

Penderfynwch pa weithdrefn allforio rydych am ei defnyddio. Pethau i'w hystyried:

A ydych yn symud pethau dros dro? **Mae'n bosibl mai Trwyddedau ATA yw'r dewis i chi**.

A ydych yn allforiwr mawr? Os felly, **gallai Cludo symleiddio sut mae'ch nwyddau'n mynd drwy'r tollau**.

**Ar gyfer Trwydded ATA (i symud nwyddau dros dro), ewch i dudalen 4**

**Ar gyfer Cludo (i symleiddio sut mae'ch nwyddau'n mynd drwy'r tollau), ewch i dudalen 3**

## Allforio safonol

### Byddwch yn barod

Ewch ati i gael **rhif EORI a roddir yn y DU** os nad oes un gennych yn barod (mae'n dechrau gyda GB). Mae'n cymryd pump i ddeng munud i wneud cais yn GOV.UK.

Gwiriwch a oes angen **trwydded allforio** ar eich nwyddau, er enghraifft os ydych yn gwerthu bwyd neu dda byw. Os felly, gwnewch y trefniadau angenrheidiol. Os ydych yn masnachu nwyddau o dan reolaeth fel cemegion, bwyd, **nwyddau ecséis** neu anifeiliaid, bydd angen i chi ddilyn dogfennau/tystysgrifau a phrosesau ychwanegol. Gwiriwch GOV.UK am wybodaeth fwy manwl.

Penderfynwch a ydych yn mynd i ddefnyddio **asiant tollau i lenwi datganiadau tollau** ar eich rhan.
Pethau i'w hystyried: A oes gennych staff a allai ymgymryd â'r gwaith newydd hwn? A oes gennych y sgiliau i'w wneud eich hun?

Ydw, rwyf am ddefnyddio asiant tollau.

Dewch o hyd i **asiant tollau**.

Nac ydw, nid wyf am ddefnyddio asiant tollau.

Prynwch feddalwedd arbenigol i lenwi datganiadau tollau neu hyfforddi staff **i wneud datganiadau ar-lein** gan ddefnyddio'r System Allforio Genedlaethol (NES).

### Paratowch i symud eich nwyddau

Rhowch yr holl wybodaeth angenrheidiol i'ch asiant tollau er mwyn iddo allu llenwi **Datganiad Allforio ac Ymadael Cryno ar y cyd** ar eich rhan.

Cofrestrwch am **NES**. **Gwnewch gais am fathodyn CHIEF** – mae hyn yn rhan o'r broses gwneud cais am NES.

Ar gyfer pob symudiad: llenwch **Ddatganiad Allforio ac Ymadael Cryno ar y cyd** gan ddefnyddio NES.

Gwnewch yn siŵr bod gan y mewnforiwr yn yr UE, sy'n ymdrin â'ch nwyddau, rif EORI yn yr UE o'r awdurdod perthnasol yn yr UE, bod y mewnforiwr hwnnw wedi cael gafael ar unrhyw drwyddedau mewnforio perthnasol, a'i fod wedi llenwi datganiad mewnforio ar system ddatgan ei wlad.

**Yn eich blaen i dudalen 3**

Parhad o dudalen 2

## Allforio safonol

Gwnewch yn siŵr bod gan y gyrrwr, sy’n mynd â’ch nwyddau, ddatganiad mewnforio’r UE ar ffurf **Cyfeirnod Symud (MRN) ar gyfer y wlad lle mae'r nwyddau'n dod i mewn i'r UE**. **Mae angen hwn ar eich gyrrwr i fynd â’ch nwyddau dros ffin yr UE.**

Gwnewch yn siŵr bod gan y gyrrwr, sy’n mynd â’ch nwyddau, unrhyw drwyddedau nwyddau arbenigol. **Bydd angen y rhain arno i fynd â’ch nwyddau dros ffin yr UE.**

Cadwch gofnodion o’r nwyddau rydych wedi’u hallforio i’r UE am chwe blynedd. Mae’n bosibl y bydd angen y rhain arnoch er mwyn **hawlio unrhyw ryddhad neu ad-daliadau perthnasol**.

Ar gyfer nwyddau sy’n mynd i mewn i’r UE o’r DU drwy borthladdoedd yn Ffrainc, bydd angen naill ai MRN o ddatganiad mewnforio yn Ffrainc, neu MRN o ‘amlen’ Ffin Glyfar ar y gyrrwr. Caiff hwn ei sganio cyn mynd ar y fferi neu drên gwennol Eurotunnel.

## Cludo

### Byddwch yn barod

Ewch ati i gael **rhif EORI a roddir yn y DU** os nad oes un gennych yn barod (mae’n dechrau gyda GB). Mae’n cymryd pump i ddeng munud i wneud cais yn GOV.UK.

Gwiriwch a oes angen **trwydded allforio** ar eich nwyddau, er enghraifft os ydych yn gwerthu bwyd neu dda byw. Os felly, gwnewch y trefniadau angenrheidiol. Os ydych yn masnachu nwyddau o dan reolaeth fel cemegion, bwyd, **nwyddau ecséis** neu anifeiliaid, bydd angen i chi ddilyn dogfennau/tystysgrifau a phrosesau ychwanegol. Gwiriwch GOV.UK am wybodaeth fwy manwl.

Penderfynwch a ydych yn mynd i ddefnyddio **asiant tollau i lenwi datganiadau tollau** ar eich rhan. Pethau i’w hystyried: A oes gennych staff a allai ymgymryd â’r gwaith newydd hwn? A oes gennych y sgiliau i’w wneud eich hun?

Ydw, rwyf am ddefnyddio asiant tollau.

Dewch o hyd i **asiant tollau**.

Nac ydw, nid wyf am ddefnyddio asiant tollau.

Prynwch feddalwedd arbenigol i lenwi datganiadau tollau neu hyfforddi staff **i wneud datganiadau ar-lein** gan ddefnyddio’r System Allforio Genedlaethol (NES).

### Paratowch i symud eich nwyddau

Ystyriwch wneud cais am **statws anfonwr awdurdodedig** (i ddechrau symudiad cludo yn eich safle eich hun).

Yn eich blaen i dudalen 4

Yn eich blaen i dudalen 4

Parhad o dudalen 3

## Cludo

Cysylltwch â banc neu sefydliad ariannol ynghylch trefnu gwarant. Bydd yn rhaid i CThEM awdurdodi'r warant cyn iddi gael ei rhoi ar waith. **Bydd yn rhaid i chi wneud hyn os nad yw'ch asiant yn rhoi'r warant.**

Rhowch yr holl wybodaeth angenrheidiol i'ch asiant tollau er mwyn iddo allu llenwi datganiad Cludo a **Datganiad Allforio ac Ymadael Cryno ar y cyd** ar eich rhan.

Cysylltwch â banc neu sefydliad ariannol ynghylch trefnu gwarant. Bydd yn rhaid i CThEM awdurdodi'r warant cyn iddi gael ei rhoi ar waith.

Cofrestrwch am y **Gwasanaeth System Gludo Gyfrifiadurol Newydd** (NCTS) ac am **NES**.

Ar gyfer pob symudiad: llenwch **Ddatganiad Allforio ac Ymadael Cryno ar y cyd** gan ddefnyddio NES, a llenwch ddatganiad cludo ar NCTS.

Gwnewch yn siŵr bod gan y gyrrwr sy'n mynd â'ch nwyddau, naill ai'r Ddogfen Cludo Ategol (TAD) (a roddir naill ai gennych chi, os ydych yn Anfonwr Awdurdodedig, neu gan Anfonwr Awdurdodedig arall sydd wedi cytuno i wneud y datganiad Cludo ar eich rhan), neu'r Cyfeirnod Lleol y bydd yn mynd ag ef i'r swyddfa ymadael i gael TAD. **Bydd angen TAD ar eich gyrrwr i fynd â'ch nwyddau dros ffin yr UE.**

Gwnewch yn siŵr bod gan y gyrrwr, sy'n mynd â'ch nwyddau, unrhyw drwyddedau nwyddau arbenigol. **Bydd angen y rhain arno i fynd â'ch nwyddau dros ffin yr UE.**

Cadwch gofnodion o'r nwyddau rydych wedi'u hallforio i'r UE am chwe blynedd. Mae'n bosibl y bydd angen y rhain arnoch er mwyn **hawlio unrhyw ryddhad neu ad-daliadau perthnasol**.

Ar gyfer nwyddau sy'n mynd i mewn i'r UE o'r DU drwy borthladdoedd yn Ffrainc, bydd angen naill ai MRN o ddatganiad mewnforio yn Ffrainc, datganiad Cludo, neu MRN o 'amlen' Ffin Glyfar ar y gyrrwr. Caiff hwn ei sganio cyn mynd ar y fferi neu drên gwennol Eurotunnel.

## Trwydded ATA (i symud nwyddau dros dro)

Gwnewch gais am **Drwydded ATA** i osgoi talu tollau ar nwyddau sy'n cael eu symud i mewn i'r UE dros dro. Nodir yr opsiynau eraill sydd ar gael i chi ynghylch **gwneud symudiadau dros dro** yn GOV.UK.

Gwnewch yn siŵr bod gan y gyrrwr sy'n mynd â'ch nwyddau Drwydded ATA er mwyn iddi gael ei stampio â llaw.

**Dyma beth fydd angen arno i groesi'r ffin.**

**Paratoi ar gyfer Brexit yn gov.uk/brexit**